Llywodraeth Cymru
Welsh Government





# ADNEWYDDU A DIWYGIO



# CYNLLUN ÔL-16 A PHONTIO

## MYND I'R AFAEL AG EFFEITHIAU COVID-19 AR ADDYSG A HYFFORDDIANT

SGILIAU, ADDYSG UWCH A DYGSU GYDOL OES
MAWRTH 2022

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Gweinidog | 02 |
| Y cynllun hwn | 03 |
| DEALL EFFAITH Y PANDEMIG | 04 |
| YMATEB CYCHWYNNOL I'R PANDEMIG | 05 |
| GWERSI A DDYSGWYD YN SGIL Y PANDEMIG | 07 |
| SYMUD YMLAEN O'R PANDEMIG | 08 |
| MESURAU CYMORTH CYNNAR | 12 |
| MESURAU CYMORTH YN Y DYFODOL | 13 |
| GWERTHUSO CYMORTH MEWN PERTHYNAS Â'R PANDEMIG | 17 |
| CYFLEOEDD Y TU HWNT I'R PANDEMIG | 19 |
| ATODIAD: ADOLYGIAD O LENYDDIAETH | 21 |
| CYFEIRIADAU | 27 |


ISBN Digidol 978-1-80391-438-1

OGL

© Hawlfraint y Goron 2021



# RHAGAIR
# Y GWEINIDOG

**Dros y tair blwyddyn academaidd ddiwethaf, mae ein plant, ein pobl ifanc a'n dysgwyr sy'n oedolion wedi wynebu heriau i'w haddysg, eu lles a'u bywydau bob dydd y gallai cenedlaethau blaenorol ond fod wedi eu dychmygu.**

Ar ôl cyhoeddi ein Cynllun Adnewyddu a Diwygio cyffredinol[1], mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau nesaf wrth fynd i'r afael â'r heriau y mae ein dysgwyr ôl-16, a'r gweithlu sy'n eu cefnogi, yn eu hwynebu. Mae'n amlinellu'r cymorth y mae'r Llywodraeth hon wedi'i roi hyd yma ac yn nodi fy uchelgais i gefnogi'r sector drwy ddull gweithredu hirdymor yn seiliedig ar dystiolaeth.

Yn fy marn i, mae'r sector ôl-16 yng Nghymru wedi ymateb yn eithriadol o dda i heriau niferus y tair blwyddyn academaidd ddiwethaf. Yn ogystal â gwaith caled, angerdd ac ymrwymiad pawb sy'n cefnogi'r sector, dim ond o ganlyniad i ddull gweithredu cydweithredol ym mhob rhan o'r system y bu modd cyflawni'r llwyddiannau sydd wedi deillio o'r ymateb hwn. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn adeiladu ar y dull gweithredu hwn wrth symud ymlaen, er mwyn llywio ein hymateb parhaus i'r pandemig a datblygu sector addysg ôl-16 gwydn ymhellach, sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes, cyfle cyfartal a gwelliant parhaus.

Fy uchelgais yw sicrhau na chaiff unrhyw ddysgwr ei roi dan anfantais oherwydd y tarfu rydym wedi'i weld ar addysg a hyfforddiant. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd yr effeithiau hyn yn dod i'r amlwg dros amser ac y byddant yn wahanol i grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Fel y cyfryw, blaenoriaeth y prosiect fydd gwrando ar ddarparwyr, ymarferwyr a dysgwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n bodoli eisoes a'r materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn ein galluogi i gydweithio'n agos â nhw er mwyn datblygu pecyn cymorth cyfannol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr.

Fel rhan o ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio addysg, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi ein plant, ein pobl ifanc a'n dysgwyr sy'n oedolion yn llwyddiannus, er mwyn lleihau anghydraddoldebau addysgol a chodi safonau[2]. Mae'r cynllun hwn yn ategu polisïau allweddol eraill, fel y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)[3], ac yn cydweithio â pholisïau o'r fath, er mwyn ein helpu i gyflawni hyn. Mae ein dysgwyr ymhlith yr asedau pwysicaf a mwyaf pwerus sydd gennym i gyfrannu at Gymru ffyniannus a'n lles fel cenedl y tu hwnt i'r pandemig.



**Jeremy Miles**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

# Y CYNLLUN HWN

**Mae'r cynllun hwn yn nodi'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'n rhaglen Adnewyddu a Diwygio, yn gweithio gyda darparwyr addysg ôl-16 i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr i symud ymlaen y tu hwnt i bandemig COVID-19 yn y ffordd orau posibl. Mae'n canolbwyntio ar ddysgwyr chweched dosbarth ysgolion, colegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, yn ogystal â dysgwyr sy'n pontio i'r sectorau hyn, rhyngddynt, neu allan ohonynt. Ar y cyd â'r prosiect Adnewyddu a Diwygio penodedig sy'n anelu at gefnogi dysgwyr dan anfantais a dysgwyr agored i niwed, bydd y prosiect Ôl-16 a Phontio hwn yn gweithio i helpu'r grwpiau hynny sydd eisoes dan anfantais, lle mae'r tarfu ar addysg a hyfforddiant ôl-16 wedi cael effaith anghymesur arnynt.**

Mae nodau'r prosiect yn gyson ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 i leihau anghydraddoldebau addysgol a gwella safonau, gan sicrhau na chaiff neb yng Nghymru ei adael ar ôl yn dilyn pandemig y coronafeirws[2]. Mae'n cefnogi nodau ehangach y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, sef y dylai pobl ifanc fwynhau dysgu a chael yr addysg orau posibl er mwyn helpu i ehangu eu gwybodaeth, meithrin eu creadigrwydd a gwireddu eu potensial. Mae'r prosiect yn gyson â nodau hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[4] ar gyfer Cymru fwy ffyniannus, cydnerth a mwy cyfartal â phoblogaeth iach o gymunedau cydlynus, sy'n ffynnu mewn modd cyfrifol ar lefel fyd-eang, ac yn dathlu iaith a diwylliant bywiog Cymru. Bydd y prosiect yn cefnogi'r iaith drwy gyfrannu at amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel rhan o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn unol â strategaeth Cymraeg 2050[5].

Gan adeiladu ar Gynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y Sector Ôl-16[6], mae'r cynllun hwn yn diffinio'r dull gweithredu cydweithredol, seiliedig ar dystiolaeth y byddwn yn ei fabwysiadu dros y tair blynedd nesaf i lywio mesurau cymorth a'u rhoi ar waith. Bydd y mesurau hyn yn adeiladu ar ein hymateb cynnar i'r pandemig mewn ffordd a all gynnig yr help gorau i ddarparwyr a dysgwyr, yn eu barn nhw, dros y tymor canolig a'r hirdymor. Mae ein darparwyr ôl-16 yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau, y mae rhai ohonynt yn gweithredu â chryn lefel o annibyniaeth. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod gwerth yr ymreolaeth honno ac yn cynnig cyfleoedd i sicrhau synergedd drwy ddod â darparwyr ynghyd, o fewn ffiniau'r sectorau ac ar eu traws, i rannu eu profiadau ac i gydweithio. Nid yw'r cynllun hwn yn pennu union ffurf y mesurau cymorth, ond yn hytrach, mae'n nodi sut rydym yn gwrando ar anghenion dysgwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach, a sut y byddwn yn teilwra ein cymorth yn y dyfodol i ddiwallu'r anghenion hynny wrth iddynt newid dros amser.

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: AdnewydduDiwygioOl16@llyw.cymru





# DEALL EFFAITH Y PANDEMIG

**Cyflwynwyd cyfyngiadau symud yng Nghymru am y tro cyntaf ar ddiwedd mis Mawrth 2020[7]. Cafodd addysgu wyneb yn wyneb ei atal ym mhob sector addysg a hyfforddiant i bawb ond ychydig ddysgwyr, a chyflwynwyd cyfyngiadau ehangach ar deithio a chymdeithasu.**

Rhwng 20 Mawrth a Nadolig 2020, cafodd addysgu wyneb yn wyneb ei atal am 60-65 diwrnod mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Hefyd, gofynnodd prifysgolion i fyfyrwyr a oedd yn byw mewn llety yn ystod y tymor ddychwelyd adref. Cafwyd ychydig o ddiwrnodau pellach lle y tarfwyd ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb yn y sectorau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021.

Yn sgil y cyfyngiadau ar addysgu wyneb yn wyneb, ymatebodd darparwyr ôl-16 drwy newid i ddysgu ar-lein a chefnogi dysgwyr o bell. Diwygiodd darparwyr eu cynlluniau dysgu i ganolbwyntio ar elfennau damcaniaethol yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell, gan gyflwyno elfennau ymarferol pan fyddai'r cyfyngiadau wedi'u llacio ac y gallai dysgwyr fynychu'n gorfforol. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddysgwyr a oedd yn astudio ar gyfer cymwysterau trwydded i ymarfer, ynghyd â dysgwyr agored i niwed, o ran darpariaeth ar y safle[8].

Yn gyffredinol, ymddengys bod y niwed hirdymor a achosir yn uniongyrchol gan feirws COVID-19 i iechyd corfforol pobl ifanc yn isel[9 10]. Fodd bynnag, mae effeithiau ehangach y pandemig wedi effeithio ar iechyd a lles corfforol a meddyliol dysgwyr. Mae llai o weithgarwch corfforol, newidiadau o ran cymeriant maethol a mwy o risg o gam-drin domestig yn ychwanegu at effeithiau negyddol ehangach y pandemig ar iechyd meddwl[9].

Yr arwyddion cynnar yw bod y tarfu a achoswyd gan y pandemig wedi cynyddu anghydraddoldebau sylfaenol sy'n effeithio ar iechyd meddwl a lles[11]. Mewn arolwg o bobl ifanc a oedd wedi gofyn am help ar gyfer eu hiechyd meddwl a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021, roedd 67% o'r ymatebwyr rhwng 13 a 25 oed o'r farn y byddai'r pandemig yn cael effaith negyddol hirdymor ar eu hiechyd meddwl[12]. Nodwyd mai effaith y pandemig ar y canlynol: gwaith ysgol/coleg/prifysgol, unigrwydd, eraill yn mynd yn sâl, y gallu i gael cymorth iechyd meddwl, cydberthnasau gartref a chyfleoedd cyflogaeth, oedd y prif bethau a oedd yn achosi pryder ymhlith y grŵp hwn[12 13]. Adleisiwyd y pryderon hyn ymhlith y boblogaeth ehangach o ddysgwyr, gyda rhai o'r rheini sy'n ymgymryd â gweithgareddau yn y gweithle hefyd yn dioddef yn sgil y pwysau sy'n gysylltiedig â gweithio oriau hir o fewn galwedigaethau rheng flaen[14]. Yn gyffredinol, roedd pobl anabl yn dioddef mwy o orbryder mewn perthynas â'r pandemig na phobl nad oeddent yn anabl[15]. Canfu Comisiynydd Plant Cymru fod pobl ifanc anabl yn fwy tebygol o nodi bod y pandemig yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u bod yn teimlo'n drist[16]. Roedd pobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol na phobl ifanc Gwyn Cymreig neu Brydeinig o nodi eu bod yn poeni y byddent ar ei hôl hi o ran eu dysgu, ac yn poeni am yr effaith bosibl ar ganlyniadau arholiadau[17].

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2021 fod gan lawer o ymarferwyr ledled Cymru bryderon ynghylch effaith y pandemig ar eu harferion addysgu neu weithio, yn ogystal â'u teimladau o ran lles a diogelwch yn y gwaith[18].

# YMATEB CYCHWYNNOL I'R PANDEMIG

Hyd yma, mae tua £310 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i neilltuo er mwyn helpu darparwyr ôl-16 yng Nghymru i ymateb i'r pandemig. Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y Sector Ôl-16[6], gan nodi'r ffordd y byddai'n gweithio gyda rhanddeiliaid i feithrin cadernid er mwyn galluogi darparwyr dysgu i addasu, er mwyn gallu rheoli achosion o darfu ar ddysgu yn effeithiol, ac er mwyn gallu cefnogi lles dysgwyr a staff.

Cyn y pandemig, roedd llawer o ddarparwyr yn defnyddio dulliau dysgu cyfunol er mwyn helpu i gyflwyno profiadau a chymorth dysgu cyfoethog. Yn gynyddol, roedd technoleg dysgu o bell yn galluogi dysgwyr i ddod at ei gilydd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi ar bynciau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg[19]. Yn ystod y cyfnodau pan ataliwyd addysgu wyneb yn wyneb mewn ymateb i'r pandemig, estynnodd darparwyr yng Nghymru eu darpariaeth ddysgu ar-lein. Yn ogystal â sicrhau parhad dysgu, roedd hyn yn galluogi darparwyr i reoli nifer y dysgwyr a'r aelodau o staff a oedd yn bresennol ar y safle ar unrhyw adeg benodol. Datblygodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol adnoddau dysgu ar-lein Cymraeg ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol gan alluogi dysgwyr, ar y cyd ag adnoddau a oedd yn bodoli eisoes, i barhau i ddysgu ar ffurf ddwyieithog. Yn ogystal, sefydlwyd canllaw arferion da a chymuned ar-lein er mwyn i ymarferwyr rannu arferion gorau a thrafod yr heriau a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno gwersi o bell.

Darparodd Llywodraeth Cymru fwy na £12 miliwn i gefnogi dysgu o bell: blaenoriaethwyd y cyllid hwn i fynd i'r afael ag allgáu digidol ac o ganlyniad, darparwyd 26,600 o ddyfeisiau newydd er mwyn galluogi dysgwyr i astudio gartref. Gwnaeth gweithgor o gynrychiolwyr darparwyr a rhanddeiliaid allweddol helpu i ddatblygu canllawiau ar ddysgu cyfunol[20] ar gyfer colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darparwyr dysgu oedolion, ac i nodi gwybodaeth datblygu proffesiynol berthnasol i ymarferwyr yn y sectorau hynny[21]. Daeth prifysgolion yng Nghymru hefyd ynghyd i rannu eu dulliau o addysgu, dysgu a chefnogi myfyrwyr yn ystod y pandemig[22 23 24].

Mewn ymateb i'r angen cynyddol a ganfuwyd cyn, ac yn ystod y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu adnoddau ychwanegol sylweddol er mwyn gefnogi iechyd meddwl a lles. Yn 2020/21, dyrannwyd £4.5m o gyllid penodol i'r sector addysg bellach at y diben hwn, gyda darparwyr hefyd yn gallu defnyddio'u cyllid adfer a dilyniant i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr.

O ran prifysgolion, neilltuwyd cyfanswm o £50m yn 2020/21 i'w helpu i roi cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ac aelodau o staff yr effeithiodd





YMATEB CYCHWYNNOL I'R PANDEMIG

y pandemig arnynt. Roedd hyn yn cynnwys £10m cychwynnol i roi cymorth ychwanegol i fyfyrwyr a oedd yn wynebu anawsterau ariannol, anawsterau emosiynol neu anawsterau iechyd meddwl a £40m pellach ym mis Ionawr 2021 i gefnogi caledi ariannol ymhlith myfyrwyr[25].

Yn sgil y tarfu a achoswyd gan y pandemig, roedd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr i bontio'n llwyddiannus i gam nesaf eu dysgu, i brentisiaethau, i hyfforddiant, neu'n uniongyrchol i fyd gwaith. Yn 2020/21, neilltuwyd £8.8m i golegau addysg bellach ac awdurdodau lleol er mwyn rhoi cymorth penodol i'r rhai a oedd yn pontio i gam nesaf eu taith addysgol.

Llwyddwyd i sicrhau cyflogaeth llawer o ddysgwyr seiliedig ar waith, a oedd yn wynebu'r risg fwyaf o golli eu swyddi oherwydd y pandemig, drwy'r cynllun cadw swyddi (ffyrlo) a barhaodd yn weithredol tan fis Medi 2021. Drwy'r cynllun cymhellion i gyflogwyr prentisiaid, sydd ar waith tan fis Chwefror 2022, mae cyflogwyr wedi gallu manteisio ar hyd at £4,000 o gymorth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r pandemig ar gyfer pob prentis newydd dan 25 oed y maent yn ei recriwtio[26]. I adlewyrchu'r costau uwch o weithredu yn ystod y pandemig, dyrannodd Llywodraeth Cymru £6m o gyllid penodol i ddarparwyr prentisiaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-2021. Roedd hyn yn gymorth i ddarparwyr wrth iddynt fynd i'r afael â heriau megis yr angen cynyddol am gefnogaeth ar gyfer dysgwyr, yr angen i weithio o bell neu i weithredu mesurau pellter cymdeithasol, yn ogystal â'r angen i addasu trefniadau asesu.

O ran dysgu oedolion yn y gymuned, rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021, neilltuodd Llywodraeth Cymru bron £500k o gyllid ychwanegol. Defnyddiwyd rhan o'r cyllid hwn i gaffael dyfeisiau digidol a meddalwedd, gan alluogi dysgwyr i barhau i ddysgu o bell. Drwy ddosbarthu'r dyfeisiau hyn, llwyddwyd i gefnogi'r broses o feithrin sgiliau digidol dysgwyr gan helpu i leihau teimladau o ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith dysgwyr. Ymrwymwyd £100k arall i brosiectau a oedd yn cefnogi dysgu proffesiynol ymhlith ymarferwyr, yn ogystal ag iechyd meddwl a lles dysgwyr ac aelodau o staff ar draws y sector.

# GWERSI A DDYSGWYD **YN SGIL Y PANDEMIG**

**Cynhaliwyd adolygiad cyflym o lenyddiaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021 er mwyn ystyried yr hyn a oedd yn hysbys am effaith COVID-19 ar ddysgwyr ac ymarferwyr addysgol yn y sectorau ôl-16 yng Nghymru a thu hwnt[27].**

Ffocws yr adolygiad oedd nodi'r mesurau mwyaf effeithiol i liniaru prif effeithiau niweidiol y tarfu. Er mai prin oedd y dystiolaeth a oedd ar gael, nodwyd nifer o fesurau lliniaru i lywio'r broses o ystyried ymdrechion cymorth yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- mesurau i gefnogi gweithgarwch corfforol, gwella ansawdd cwsg a chynnig cwnsela i bobl ifanc[27];
- tiwtora pwnc benodol ychwanegol i ddysgwyr mewn grwpiau bach[27];
- cymorth dysgu a mentora dan arweiniad cyfoedion[27];
- cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a chyfleoedd hyfforddi gwarantedig i ddysgwyr galwedigaethol[28];
- mynediad gwell i'r llwyfan dysgu digidol cenedlaethol i ddarparwyr dysgu oedolion[29];
- cymorth ariannol i ddysgwyr dan anfantais sy'n ymgymryd ag addysg uwch a chymorth mentora i'w helpu i wneud cais am gwrs[30];
- cymorth ehangach i ddysgwyr mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus[31];
- cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd penodol i alluogi pob dysgwr i ddewis y llwybr addysgol mwyaf addas[28];
- integreiddio rhaglenni dysgu cyfunol er mwyn helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr anabl, y rheini y mae tlodi digidol yn effeithio arnynt a'r rheini â chyfrifoldebau gofalu[31];
- gweithgareddau dysgu proffesiynol i helpu ymarferwyr i feithrin arbenigedd o ran dysgu cyfunol, a gwell mynediad i adnoddau dysgu cyfunol[29];
- cyfathrebu gwell â darparwyr, prosesau gweithredu gwell mewn gweithleoedd a llwythi gwaith y gall y staff ymdopi â nhw[32].

Ceir rhagor o fanylion am y canfyddiadau sy'n deillio o'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd, ynghyd â'r mesurau lliniaru y dylid eu hystyried yn y dyfodol yn yr atodiad: adolygiad o lenyddiaeth.



# SYMUD YMLAEN **O'R PANDEMIG**

**Mae'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, yn amlinellu'r modd y bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y cymorth a roddwyd yn ystod camau cynnar y pandemig[1]. Ei nod yw dwyn ynghyd ymyriadau a mentrau a roddwyd ar waith yn llwyddiannus a mesurau newydd i gefnogi dysgwyr a'r gweithlu addysg. Y nod yw i'r system gyfan ddysgu o'r hyn a fu'n llwyddiannus yn ystod camau cynnar y pandemig a pharhau i feithrin ei gallu i wella.**

Mae angen cymorth ar ddysgwyr i ddatblygu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu; mae eu hiechyd meddwl a chorfforol, eu lles emosiynol, eu hyder a'u cymhelliant yn allweddol i hyn. At hynny, gall dysgwyr wynebu rhwystrau penodol i ddatblygu neu gallant fod wedi colli cyfleoedd dysgu penodol sy'n bwysig i'w cynnydd. Bydd angen cefnogaeth ar ymarferwyr ar gyfer eu lles eu hunain hefyd; yn ystod y pandemig, maent wedi addasu eu dulliau addysgu, wedi ailgynllunio'r gwersi i'w dysgu ac wedi ymateb i amrywiaeth o ganllawiau, disgwyliadau a gofynion gweithredol newydd.


**Mae'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio yn cael ei chyflwyno drwy bedwar prosiect allweddol:**

- Dysgwyr yn y Blynyddoedd Cynnar
- Dysgwyr dan Anfantais ac Agored i Niwed
- Ôl-16 a Phontio
- Dysgwyr mewn Ysgolion

Wrth i bobl ifanc ddychwelyd i addysg wyneb yn wyneb a pharatoi ar gyfer asesiadau cymwysterau wedi'u haddasu yn 2021/22, mae llawer yn pryderu am yr effaith y bydd y pandemig yn ei chael ar eu cyflawniadau a'u cynnydd yn y dyfodol. Bydd angen i'r prosiect Ôl-16 a Phontio, gan gydweithio â rhanddeiliaid ac ystyried pob rhan o'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, gefnogi'r bobl ifanc hynny i wneud dewisiadau gwybodus a hyderus am eu haddysg, eu hyfforddiant neu eu taith tuag at waith yn y dyfodol. Ni ddylai unrhyw berson ifanc deimlo na all sicrhau'r dyfodol y mae'n anelu ato oherwydd y pandemig. Rhaid inni eu helpu i fod yn hyderus wrth wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol, ni waeth beth fo canlyniadau eu cymwysterau ffurfiol. Rhaid i bobl ifanc gael eu cefnogi a'u cymell i wneud yn dda ac i gwblhau eu haddysg neu eu hyfforddiant, gan wybod y byddant yn cael eu grymuso i archwilio'r llwybr sy'n addas iddynt yn y dyfodol.

# SYMUD YMLAEN O'R PANDEMIG

**Nod y Prosiect Ôl-16 a Phontio yw sicrhau ymateb effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i effeithiau COVID-19 ar y sectorau ôl-16, gan gynnwys yr effeithiau ar gynnydd dysgwyr, llwybrau a deilliannau dysgu, yn ogystal â lles dysgwyr a staff. Y sectorau ôl-16 y bydd y prosiect yn eu cefnogi yw:**




Achubir ar gyfleoedd hefyd i wella'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr sy'n pontio i'r sectorau hyn a rhyngddynt, neu i fyd gwaith. At hynny, lle mae cyfleoedd yn bodoli, caiff cymorth ei ymestyn i ddarparwyr dysgu yn y sector cyfiawnder yng Nghymru.

## Galluogi darparwyr

Mae gwybodaeth a phenderfyniadau lleol yn elfennau allweddol o gynlluniau adfer addysg llwyddiannus[28, 33]. Darparwyr sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion eu dysgwyr a'u haelodau o staff, cyn mynd ati i gydlynu'r cymorth sydd ei angen a'i roi ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydweithio â darparwyr i ddarparu ar gyfer dysgwyr ac ymarferwyr drwy gynnig yr adnoddau, yr arweiniad a'r help sydd eu hangen arnynt i oresgyn y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22, fe ddyrannwyd dros £35m o gyllid ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig, i'r chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, er mwyn cefnogi dilyniant a lles dysgwyr. Mae £13m pellach wedi ei ddosbarthu i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio i mewn, a rhwng, y sectorau ôl-16. Drwy CCAUC, fe gafodd sefydliadau addysg uwch £2.1m o gyllid sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, fe ddefnyddiwyd £75k i adeiladu ar waith prosiectau iechyd meddwl, lles a datblygu proffesiynol y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22, dyrannwyd £1m yn ychwanegol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith i gefnogi iechyd meddwl a lles prentisiaid, a £600k i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr hyfforddeiaethau. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23 (hyd at yr amser ysgrifennu ym mis Mawrth 2022) mae £21.4 o gyllid ychwanegol wedi ei glustnodi ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â'r pandemig o fewn y chweched dosbarth mewn



SYMUD YMLAEN O'R PANDEMIG

ysgolion a colegau addysg bellach, gyda £2.3m pellach wedi ei neilltuo i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr addysg bellach a dysgwyr addysg uwch yn sgil y pandemig.

### Mae'r cyllid a neilltuwyd i'r chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn cael ei ddefnyddio i alluogi:

- dysgwyr sydd wedi colli cynnwys pwnc i gael y cyfle i adolygu dysgu blaenorol a meithrin gwybodaeth er mwyn bodloni gofynion eu cyrsiau;
- dysgwyr i gael cymorth bugeiliol penodol, gan gynnwys meithrin gwydnwch a hyder, i'w helpu i ddychwelyd yn llwyddiannus i ddysgu wyneb yn wyneb;
- dysgwyr i gael cymorth ychwanegol i feithrin sgiliau ymarferol/gweithdy y gallant fod wedi eu colli yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell.

Rhoddwyd yr hyblygrwydd i golegau addysg bellach a'r chweched dosbarth mewn ysgolion i ganolbwyntio ar anghenion eu dysgwyr yn ystod yr oriau ychwanegol hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y ddarpariaeth yn amrywio fesul lleoliad a rhwng dysgwr yn ôl yr angen, ac y bydd rhai dysgwyr yn cael cymorth un i un unigol ac eraill yn cymryd rhan mewn sesiynau grŵp neu gyfuniad o'r ddau

### Ymhlith yr enghreifftiau o'r ffordd y mae'r chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau yn defnyddio'r oriau ychwanegol hyn mae'r canlynol:

- hyfforddiant pwnc benodol;
- gwersi ymarferol ychwanegol megis amser astudio neu labordy;
- cymorth bugeiliol i feithrin hyder neu help ag iechyd meddwl a lles;
- digwyddiadau byw ac wedi'u recordio ar y we sy'n canolbwyntio ar strategaethau i gefnogi pob dysgwr;
- gweithdai sgiliau astudio a thechnegau arholiad; neu
- dosbarthiadau meistr a sgyrsiau gan arbenigwyr o'r diwydiant neu siaradwyr gwadd.

### Disgwylir i'r chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau wneud y canlynol:

- pennu gweledigaeth glir o ran yr hyn y bwriedir ei gyflawni gyda'r buddsoddiad ychwanegol;
- gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddatblygu strategaethau i gefnogi cynnydd a lles dysgwyr;
- olrhain a gwerthuso effaith gwariant ychwanegol yn rheolaidd er mwyn addasu cynlluniau cyfredol a llywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol;
- ystyried adeiladu ar newidiadau llwyddiannus i arferion a wnaed yn ystod y pandemig;
- sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gynnydd dysgwyr yn Gymraeg, ni waeth beth fo'u cefndir ieithyddol.

Fel rhan o'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda darparwyr i'w helpu i gyflwyno darpariaeth

ychwanegol i ddysgwyr ôl-16. Defnyddir astudiaethau achos o gymorth effeithiol i rannu arferion da ymhlith darparwyr. Yn dilyn adolygiad thematig Estyn ym mis Mehefin 2021[34], byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ac yn defnyddio'r wybodaeth i helpu i lywio ein gwaith cynllunio yn y dyfodol. Fe fyddwn yn gofalu mai rhoi'r cymorth gorau i'n dysgwyr yw'r nod, yn hytrach na dim ond cyflawni prif ffigur o ran oriau dysgu ychwanegol.

Ochr yn ochr â'r dull hwn o alluogi darparwyr i gyfeirio eu hymdrechion cymorth yn unol â'r angen lleol, bydd y prosiect yn helpu i arwain y broses o gydlynu gweithgarwch ymhlith darparwyr er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gwaith sy'n mynd rhagddo. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r sectorau i sicrhau gwelliannau ar lefel genedlaethol; bydd y rhain yn hwyluso gwaith darparwyr ac yn cyflawni gwerth am arian drwy arbedion maint.

# SYMUD YMLAEN O'R PANDEMIG

## Cymorth y tu hwnt i'r pandemig

Mae cydweithio â rhanddeiliaid yn rhan greiddiol o ddull gweithredu blaengar y prosiect. Bydd y cymorth a gynigir yn cael ei lywio gan brofiadau dysgwyr, darparwyr ac ymarferwyr, a chan y ffordd y mae'r rhanddeiliaid hyn yn teimlo y gallant gael eu helpu orau i symud ymlaen er gwaethaf effeithiau'r pandemig. Bydd y prosiect yn mabwysiadu dull gwahaniaethol o weithio gyda'r sectorau gwahanol yn ôl yr arferion gweithredu a goruchwylio sydd wedi'u sefydlu ar gyfer pob sector. Bydd gweithgarwch y prosiect yn dibynnu ar gyfranogiad gweithredol darparwyr ond bydd hefyd yn rhoi'r ymreolaeth sydd ei hangen ar sectorau gwahanol. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd y cymorth a gynigir i'r chweched dosbarth mewn ysgolion yn cynnwys lefel uchel o gydlynu gan Lywodraeth Cymru o gymharu â'r cymorth a gynigir i brifysgolion, sy'n sefydliadau annibynnol â chryn arbenigedd mewn casglu gwybodaeth ac ymchwil. Fodd bynnag, pan fydd dysgwyr yn paratoi i bontio o'r ysgol neu'r coleg i addysg uwch, mae'n debygol y bydd cyfleoedd i gydlynu rhagor o gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng y sectorau.

**Bydd y prosiect yn cefnogi dysgwyr a darparwyr dros y blynyddoedd sy'n dilyn drwy gydlynu gweithgarwch a rhoi mesurau cymorth ar waith yn y pedwar categori canlynol:**

### LLES A DATBLYGIAD PERSONOL DYSGWYR

Cefnogi lles dysgwyr, gan gynnwys eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl; hyrwyddo dyheadau dysgwyr ac ennyn eu hyder; meithrin gwydnwch, sgiliau rhyngbersonol, sgiliau astudio, profiad gwaith a sgiliau cyflogadwyedd dysgwyr; hyrwyddo dewisiadau iach ac amgylcheddau astudio cynhyrchiol.

### ADDYSGU, DYSGU A CHYRHAEDDIAD

Addysgu a dysgu ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol, sy'n gwella gwybodaeth a sgiliau dysgwyr; gweithgareddau asesu ffurfiannol sy'n helpu i wneud y gorau o addysgu a dysgu.

### LLES A GWYDNWCH Y GWEITHLU

Diogelu lles ymarferwyr gan gynnwys ystyriaethau o ran llwythi gwaith; meithrin gwydnwch y gweithlu addysg drwy ddysgu proffesiynol; ehangu'r gweithlu drwy recriwtio a chadw, gan fanteisio i'r eithaf ar briodoleddau unigol a chyfunol.

### CYFNODAU PONTIO A LLWYBRAU DYSGWYR

Caffael gwybodaeth graff am alluoedd, anghenion a phriodoleddau dysgwyr; rhannu gwybodaeth am ddysgwyr a'u hanghenion ag ymarferwyr perthnasol mewn modd diogel ac amserol i gefnogi cynnydd dysgwyr; gwell cymorth i ddysgwyr wrth symud rhwng sectorau addysg a hyfforddiant ac i'r gweithle.



# MESURAU CYMORTH CYNNAR

**Oherwydd natur ddybryd y gwaith, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ddatblygu a threialu nifer o fesurau cymorth cenedlaethol cynnar, sydd â'r nod o sicrhau buddiannau i ddysgwyr ac ymarferwyr yn y byrdymor a'r tymor canolig.**



**Ar adeg llunio'r ddogfen hon ym mis Mawrth 2022, mae'r mesurau cymorth sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol:**


- Gweithgareddau 'Gaeaf Llawn Lles', sydd â'r nod o gefnogi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol plant a phobl ifanc hyd at 25 oed dros fisoedd gaeaf 2021/22; wedi'u darparu gan brifysgolion, colegau addysg bellach, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau cenedlaethol.
- Datblygu dull sy'n seiliedig ar drawma o gyflwyno addysg bellach; mewn partneriaeth â'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
- Adnoddau adolygu digidol Safon Uwch er mwyn helpu dysgwyr i atgyfnerthu eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth a pharatoi ar gyfer asesiadau; wedi'u datblygu ar y cyd gan brosiect 'Dysgwyr mewn Ysgolion' y rhaglen Adnewyddu a Diwygio a CBAC[35].
- Ymgyrch recriwtio i ehangu'r gweithlu addysg yng Nghymru drwy annog diddordeb mewn rolau sy'n gysylltiedig ag addysgu a hwyluso'r broses o ddychwelyd i addysgu; wedi'i chynnal mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg.
- Prosiect peilot 'Ymwybyddiaeth Llesiant' i hybu iechyd meddwl a lles ymhlith ymarferwyr addysgu; wedi'i gynnal gan y Cyd-undebau Llafur a sefydliadau addysg bellach.
- Adolygiadau o lwythi gwaith athrawon mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.
- Datblygu adnoddau dysgu proffesiynol digidol. Rhaglen o unedau hyfforddi staff i wella arferion cyflwyno digidol ymhlith ymarferwyr addysg bellach, seiliedig ar waith a dysgu oedolion; wedi'i datblygu gan Jisc ar ran Llywodraeth Cymru.
- Cymorth digidol ychwanegol ar gyfer y sectorau addysg bellach a sgiliau, gan gynnwys cymorth pwrpasol ar gyfer seiberddiogelwch, buddsoddi mewn TGCh gynaliadwy a dadansoddi data; wedi'i ddarparu gan Jisc ar ran Llywodraeth Cymru.
- Adnoddau digidol Barod ar gyfer Prifysgol i gefnogi dysgwyr i wneud cais am le yn y Brifysgol ac i bontio i'r brifysgol; wedi'u datblygu gan brifysgolion Cymru mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored[36].
- Treialu trefniadau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddysgwyr er mwyn helpu dysgwyr i bontio a throsglwyddo rhwng ysgolion a cholegau; mewn partneriaeth â ColegauCymru.
- Profiad gwaith wedi'i deilwra i symbylu dysgwyr cyfnod allweddol 4 sydd heb fod yn mynychu'r ysgol fel y disgwyl ers i addysg wyneb yn wyneb llawn amser ail gychwyn; rhaglen beilot wedi ei ddatblygu gan Gyrfaoedd Cymru.

Byddwn yn parhau i roi'r mesurau hyn ar waith a'u gwerthuso, yn ogystal â datblygu rhagor o fesurau cymorth mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid.

# MESURAU CYMORTH YN Y DYFODOL

**Defnyddir y pedwar categori fel fframwaith ar gyfer y mesurau cymorth y bydd y prosiect yn eu rhoi ar waith ac yn eu cydlynu. Fel rhan o'r broses o weithio gyda rhanddeiliaid, defnyddir gwybodaeth am effeithiau'r pandemig a phrofiadau dysgwyr i lunio amrywiaeth eang o fesurau cymorth posibl.**

Bydd rhanddeiliaid yn ystyried, yn llunio ac yn treialu mesurau cymorth gwahanol, gan roi adborth ar eu heffeithiolrwydd lle y bo'n bosibl. Dangosir y broses o ddylunio, datblygu a rhoi'r mesurau cymorth hyn ar waith isod:





Fel rhan o'r cyfnod dylunio cydweithredol â rhanddeiliaid, bydd darparwyr, ar y cyd â rhanddeiliaid ehangach, yn pennu cwmpas cynigion ar gyfer mesurau cymorth, yn eu hasesu ac yn dewis y cynigion cryfaf. Bydd mesurau cymorth gwahanol yn mynd i'r afael ag anghenion datblygu gwahanol iawn a nodwyd ar draws y pedair categori. Felly, byddant yn symud drwy'r broses ddylunio, datblygu a gweithredu ar gyflymder gwahanol yn unol â'u blaenoriaeth, yr adnoddau sydd ar gael a chapasiti'r gweithlu. Pan fydd yn fuddiol gwneud hynny, caiff mesurau cymorth a ddatblygwyd yng nghyd-destun grŵp oedran neu sector penodol, eu hymestyn i gwmpasu grwpiau oedran a sectorau gwahanol ar draws prosiectau'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio.



MESURAU CYMORTH YN Y DYFODOL

### Llinell amser

Mae prif gyfnodau cyflawni'r prosiect yn rhychwantu cyfnod o dair blynedd rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2024, gyda chyfnod dilynol o fonitro a gwerthuso parhaus. Ni fydd y camau dylunio, datblygu a gweithredu (a nodwyd yn flaenorol) yn cael eu dosbarthu'n llinol dros dair blynedd y prosiect. Mae angen i'r mesurau cymorth, er eu bod ar gam cymharol ddatblygedig o'r broses dylunio, datblygu a gweithredu, gael eu cyflwyno'n eithaf cyflym er mwyn i'r nifer mwyaf posibl o ddysgwyr ac ymarferwyr y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt allu cael budd ohonynt.




Yn ystod oes y prosiect, os bydd cyfle'n codi i ddiwallu angen newydd a nodwyd, mae'n bosibl y dychwelir at y broses cynllunio a threialu er mwyn datblygu mesurau cymorth penodol arfaethedig newydd. Mae'r dull ymatebol hwn yn golygu er y disgwylir yn gyffredinol i'r broses o ddatblygu mesurau cymorth a'u rhoi ar waith fod yn gyson â'r amserlen uchod, y gellir cyflwyno mesurau cymorth penodol yn ystod camau diweddarach yn ôl yr angen.

# MESURAU CYMORTH YN Y DYFODOL

## Cam 1: Cynllunio, treialu ac adolygu

Drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, a chan ddefnyddio tystiolaeth ehangach lle y bo ar gael, ffocws cychwynnol y prosiect fydd pennu natur yr anghenion cymorth ychwanegol a pha mor ddybryd ydynt. Bydd gwybodaeth am yr amrywiaeth eang o fesurau cymorth y mae darparwyr eisoes wedi'u rhoi ar waith yn golygu y gellir nodi unrhyw fylchau a chyfleoedd posibl i wella. Caiff effeithiolrwydd y mesurau presennol hyn ei fesur gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys barn dysgwyr ac ymarferwyr.

Drwy adolygu'r llenyddiaeth sydd ar gael, caiff y mesurau mwyaf effeithiol i liniaru effeithiau'r tarfu ar addysg a hyfforddiant yn ystod y pandemig eu nodi. Bydd angen diweddaru'r broses hon yn barhaus wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg. Ymgynghorir â chynrychiolwyr rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr a dysgwyr, ynghylch y mesurau cymorth sydd wedi bod yn effeithiol hyd yma, a'r ffordd y gellir eu cefnogi orau yn y dyfodol, yn eu barn nhw. Yn ychwanegol at hynny, eir ati i wneud gwaith ymchwil tymor hwy ar effeithiau'r tarfu a achoswyd gan y pandemig ar y cyd â thri phrosiect arall y rhaglen Adnewyddu a Diwygio. Ochr yn ochr â hynny, caiff cyfres o fetrigau effaith eu nodi fel y gellir mesur yr effeithiau, yn bennaf ar ddysgwyr ond hefyd ar ymarferwyr, dros gyfnod y prosiect a'r tu hwnt iddo. Fel rhan o'r broses hon, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymchwilio i ba ddata y gellir eu defnyddio i feintioli effeithiau'r pandemig a'r tarfu ar addysg a hyfforddiant.

Yna, yn seiliedig ar yr ymchwil, caiff cynigion ar gyfer mesurau cymorth eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid. Yn dilyn proses flaenoriaethu ar y cyd â rhanddeiliaid, caiff cyfres gychwynnol o fesurau ei threialu. Mae'n bosibl y cynhelir treialon dilynol drwy gydol y cam cynllunio, treialu ac adolygu. Defnyddir y wybodaeth a gesglir drwy'r treialon i fireinio dulliau gweithredu a llywio penderfyniadau ynghylch priodoldeb cyflwyno'r mesurau yn ehangach.

## Cam 2: Mireinio a chyflwyno

Yn ystod y cam hwn, bydd yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael yn uniongyrchol i ddysgwyr ac ymarferwyr yn ehangu. Caiff treialon llwyddiannus o'r cam blaenorol eu gwerthuso a'u defnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol Gweinidogion, cyn gwneud gwaith mireinio ac, o bosibl, eu cyflwyno'n ehangach. Bydd llawer o'r gwaith yn ystod y cam hwn yn ymwneud â goresgyn heriau cyflwyno ar raddfa eang. Defnyddir gwaith monitro effaith i fireinio agweddau ar y mesurau cymorth a roddwyd ar waith, gan gynnwys, lle y bo'n briodol ac yn ddichonadwy, mireinio dulliau gweithredu yn unol â sectorau, darparwyr neu grwpiau gwahanol o ddysgwyr.





MESURAU CYMORTH YN Y DYFODOL

Yn amodol ar ddeddfwriaeth, caiff y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) ei sefydlu fel corff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru yn 2023[3]. Mae'r prosiect Ôl-16 a Phontio yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r tarfu a achoswyd gan bandemig COVID-19, ac felly mae'n wahanol i waith Llywodraeth Cymru i sefydlu'r Comisiwn. Fodd bynnag, ar ôl sefydlu'r Comisiwn, mae'n bosibl y caiff elfennau o waith y prosiect eu trosglwyddo i'r Comisiwn.

## Cam 3: Pontio a phrif-ffrydio

Yn ogystal â sicrhau effeithiolrwydd parhaus y mesurau cymorth a roddwyd ar waith a sicrhau y cânt eu defnyddio i'r eithaf, ffocws gweithgarwch yn ystod y cam hwn fydd nodi'r agweddau hynny o'r cymorth a fydd yn cael yr effaith barhaus fwyaf. Bydd gwaith yn dechrau i nodi ffyrdd y gall mesurau cymorth ychwanegol ddod yn rhan annatod o'r gweithgarwch prif ffrwd ar draws y sectorau a sut y gellir ysgwyddo unrhyw gostau cysylltiedig yn y dyfodol.

# GWERTHUSO CYMORTH MEWN PERTHYNAS Â'R PANDEMIG




**Mae prosiect Ôl-16 a Phontio'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth fod tystiolaeth o ansawdd da yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw a gyflwynwyd gan y pandemig, ei effeithiau a'r heriau polisi y mae'n eu cyflwyno. Fel rhan o'i egwyddorion arweiniol, mae'r prosiect yn anelu at sicrhau ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac y caiff pob mesur cymorth ei fonitro a'i werthuso. Mae fframwaith gwerthuso a monitro wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd yn cwmpasu'r meysydd canlynol:**

- adolygu tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am yr effeithiau ar ddysgwyr ac effeithiolrwydd ymyriadau – o waith dadansoddi ar lefel y prosiect yn ogystal â ffynonellau tystiolaeth ehangach;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ganolbwyntio ar ddealltwriaeth a rennir, cyd-ddatblygu mesurau cymorth ac effeithiolrwydd canfyddedig y rhaglen;
- gwaith casglu tystiolaeth ehangach dan arweiniad sefydliadau arbenigol a defnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes a thystiolaeth o arolygon;
- nodi a datblygu metrigau effaith perthnasol.

Bydd y fframwaith yn cynnwys nifer o elfennau sydd wedi'u dylunio i asesu effeithiolrwydd y gwaith o gyflawni'r prosiect, ei ganlyniadau a'i effaith tymor hwy. Mae'n cynnwys nifer o amcanion eang a fydd yn torri ar draws camau cyflawni'r prosiect:



# GWERTHUSO MEWN PERTHYNAS Â'R PANDEMIG

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| Dysgu gwersi | Rhannu arfer gorau | Paratoi ar gyfer y dyfodol | Gwerthuso |
| Nodi 'gwersi a ddysgwyd' (cadarnhaol a negyddol) o'r ymateb i'r pandemig. | Nodi a rhannu arferion da, gan ddod o hyd i gyfleoedd i gadw canlyniadau cadarnhaol yn cynnwys dulliau arloesol o ddarparu dysgu, cymorth i ddysgwyr a dysgu proffesiynol. | Nodi gwersi a ddysgwyd y gellir eu cymhwyso'n effeithiol at heriau parhad busnes yn y dyfodol. | Gwerthuso effaith COVID-19 ar ddysgwyr, ymarferwyr a'r sectorau yn gyffredinol. |

**Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dull o werthuso'r prosiect drwy bob cam cyflawni. Ni fydd pob gweithgarwch arfaethedig yn benodol i bob cam cyflawni, er enghraifft mae'r broses o syntheseiddio a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes ac sy'n dod i'r amlwg yn weithgarwch parhaus, felly hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid a dysgu oddi wrthynt.**

| | DULL GWERTHUSO |
|---|---|
| CAM CYFLAWNI 1: CYNLLUNIO, TREIALU AC ADOLYGU | • Datblygu damcaniaeth newid ar gyfer y prosiect, gan gynnwys adolygu nodau ac amcanion y prosiect.<br>• Syntheseiddio a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a chasglu gwybodaeth.<br>• Datblygu metrigau effaith o ddata monitro sy'n bodoli eisoes a data monitro arfaethedig.<br>• Ffocws ar ddysgwyr ac ymarferwr – gan ddeall eu safbwyntiau, yn ogystal â'r angen i gynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth ddylunio ymchwil.<br>• Cynnal gwerthusiad proses o'r mesurau cymorth peilot er mwyn deall i ba raddau y rhoddwyd y mesurau peilot ar waith yn llwyddiannus.<br>• Casglu barn dysgwyr a staff drwy arolygon, cyfweliadau, grwpiau ffocws.<br>• Defnyddio arolygon sy'n bodoli eisoes ac adeiladu arnynt. |
| CAM CYFLAWNI 2: MIREINIO A CHYFLWYNO | • Comisiynu gwerthusiad o'r prosiect Ôl-16 a Phontio er mwyn ystyried y canlynol: ffurf y ddarpariaeth hyd yma; beth sy'n gweithio; cyfleu cynlluniau ac i ba raddau y cânt eu deall a'u rhoi ar waith; unrhyw nodau nas bodlonwyd; y canlyniadau byrdymor; mesur yr effaith tymor hwy; ac argymhellion ar gyfer newidiadau.<br>• Adeiladu ar fetrigau effaith sy'n bodoli eisoes a'u gwella. |
| CAM CYFLAWNI 3: PONTIO A PHRIF-FFRYDIO | • Comisiynu gwerthusiad tymor canolig er mwyn ystyried i ba raddau y mae gweithgareddau wedi'u prif-ffrydio a'u heffeithiolrwydd. |
| CAM CYFLAWNI 4: GWERTHUSO | • Comisiynu gwerthusiad effaith terfynol y prosiect. |

# CYFLEOEDD Y TU HWNT I'R PANDEMIG

**Er bod heriau digynsail pandemig COVID-19 wedi golygu y bu'n rhaid ymateb yn gyflym a gwneud penderfyniadau anodd, mae'r rhain wedi arwain at rai datblygiadau cadarnhaol a chyfleoedd y dylid manteisio arnynt:**

- cyfathrebu mynych a chlir â'r sectorau a rhanddeiliaid;
- penderfyniadau cyflymach a mwy tryloyw gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ymatebion uniongyrchol i ymholiadau a cheisiadau gan ddarparwyr;
- llai o fiwrocratiaeth;
- ymatebion cyflym gan sefydliadau i anghenion cymunedol, gan gynnwys darparu eu safleoedd i greu ysbytai maes, cynhyrchu cyfarpar diogelu personol a staff a dysgwyr yn gwirfoddoli;
- cyfleoedd i wella cyfathrebu â dysgwyr a'u helpu i ddod yn fwy gwydn ac annibynnol;
- mwy o gyfleoedd dysgu a chymorth ar-lein, gan gyflymu ymateb y sector i weledigaeth Digidol 2030, a chynnig cyfleoedd i ymestyn modelau dysgu cyfunol yn y dyfodol;
- mwy o ddefnydd o drefniadau gweithio ar-lein gan alluogi dysgwyr ac ymarferwyr i ymgysylltu ag elfennau o ddysgu a chydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ni waeth ble y maent wedi'u lleoli[19][29].

Wrth inni ddechrau sefydlu'r 'normal newydd', mae angen inni gynnal y cynnydd yn y meysydd hyn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau i helpu i werthuso'r newidiadau cadarnhaol a fu ac i gynllunio i'w gwneud yn gynaliadwy. Byddwn yn parhau i achub ar gyfleoedd i wella lles dysgwyr ac ymarferwyr, profiadau dysgwyr a deilliannau addysgol ym mhob rhan o'r dirwedd addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Byddwn yn meithrin gwydnwch y system ôl-16 er mwyn paratoi'r sectorau'n well i ymateb i fygythiadau a heriau yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r sectorau ôl-16 i ddatblygu eu strategaethau lles a'u rhoi ar waith. Ar y cyd â darparwyr, byddwn yn annog cydweithio ac yn ymgorffori gwasanaethau cymorth lles i ddysgwyr ac ymarferwyr yn y sectorau. Byddwn yn galluogi dysgwyr i adeiladu ar fentrau iechyd meddwl a lles sy'n bodoli eisoes ac yn sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori'n llawn, yn gynaliadwy ac yn hygyrch i'r staff a'r dysgwyr sydd eu hangen. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gwerthuso effaith mesurau cymorth a roddwyd ar waith yn y sectorau, ac yn helpu i ddatblygu dulliau gweithredu y dangosir eu bod yn effeithiol yn barhaus.





CYFLEOEDD Y TU HWNT I'R PANDEMIG

Gan weithio'n agos gyda darparwyr a rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn ystyried dulliau gweithredu cynaliadwy a strategol i ddatblygu'r ddarpariaeth dysgu cyfunol a'n seilwaith digidol ymhellach. Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol i godi ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth a hyrwyddo arferion da ym meysydd cynllunio ar gyfer argyfwng digidol, seiberddiogelwch a gwydnwch darpariaeth ddigidol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r broses o sefydlu ac integreiddio dulliau dysgu cyfunol effeithiol ac yn cynnal ffocws ar ledaenu arferion gorau a chydweithio ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu.

Mae cynllunio i symud ymlaen o'r pandemig, gan barhau i ymateb i'r sefyllfa sy'n newid o ran iechyd y cyhoedd, yn heriol. Mae'n rhaid i ni feithrin gwydnwch ar draws y sectorau ôl-16 a'u diogelu rhag unrhyw darfu, bygythiadau a heriau y gellid eu hwynebu yn y dyfodol. Mae angen inni ddysgu'r gwersi o'r ddwy flynedd diwethaf ac adeiladu ar yr hyn a weithiodd yn dda. Yn bwysicaf oll, byddwn yn parhau i fabwysiadu 'dull Cymru' ar y cyd sy'n cynnwys cydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, ein rhanddeiliaid a sefydliadau addysg, i ymateb i anghenion dysgwyr ôl-16 yng Nghymru drwy ymyriadau cyflym, hyblyg ac effeithiol.

ATODIAD
# ADOLYGIAD O LENYDDIAETH



**Cynhaliwyd adolygiad cyflym o lenyddiaeth gyhoeddedig ym mis Medi 2021 er mwyn ystyried yr hyn a oedd yn hysbys am effaith COVID-19 ar ddysgwyr ac ymarferwyr addysg yn y sectorau ôl-16 yng Nghymru a thu hwnt[27]. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu defnyddio i lywio cynigion i ehangu'r mesurau cymorth sy'n bodoli eisoes, ac wrth ddatblygu mesurau newydd, gyda'r nod o leihau effeithiau negyddol y pandemig ar ddysgwyr ac ymarferwyr. Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n bodoli hefyd wedi helpu i nodi bylchau yn y dystiolaeth o effaith COVID-19 ar ddysgwyr ac ymarferwyr ôl-16.**

Mae'r crynodeb canlynol yn nodi'r prif fathau o niwed i les a chynnydd dysgwyr, yn ogystal â lles ymarferwyr, ond mae'n canolbwyntio ar y dulliau gweithredu a awgrymir ar gyfer lliniaru'r mathau hyn o niwed. Mae llawer o'r dystiolaeth o niwed a mesurau lliniaru a nodir isod wedi'i chasglu o adolygiadau cyflym a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg neu Lywodraeth Cymru drwy Ganolfan Tystiolaeth COVID-19 Cymru. Rydym hefyd wedi defnyddio amrywiaeth o gyhoeddiadau ehangach, gan gynnwys canfyddiadau o adolygiadau thematig Estyn, ac wedi ystyried nifer o arolygon dysgwyr ac ymarferwyr a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ac undebau athrawon.

## Argaeledd tystiolaeth

Mae'n bwysig nodi mai tystiolaeth ragarweiniol, ac yn aml anghyflawn, sydd ar gael yn bennaf o'r niwed a achoswyd gan bandemig COVID-19 ar adeg cynnal yr adolygiad llenyddiaeth yma ym mis Tachwedd 2021, gan fod effeithiau'r pandemig yn dal i ddod i'r amlwg. Hefyd, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 gwahanol yn anghyson ac efallai na fydd yn uniongyrchol berthnasol i brofiadau dysgwyr yng Nghymru gan ei bod yn seiliedig ar waith ymchwil rhyngwladol. Felly, dylid ystyried mai cipolwg ar yr heriau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a geir yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma; mae angen gwneud rhagor o ymchwil i ddeall sut y bydd y niwed hwn yn datblygu.



ATODIAD
ADOLYGIAD O LENYDDIAETH

O ran y mesurau lliniaru a awgrymwyd, mae'n bwysig cofio na fydd dulliau gweithredu sy'n effeithiol mewn un cyd-destun bob amser yn gweithio mewn un arall.

Lle rydym wedi nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth, byddwn yn ymgynghori â darparwyr a dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr o grwpiau gwarchodedig, y rheini dan anfantais economaidd-gymdeithasol a siaradwyr Cymraeg, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r effeithiau arnynt. Byddwn hefyd yn gweithio gyda nhw i nodi camau lliniaru posibl lle bynnag y bo'n bosibl. At hynny, lle y bo'n rhesymol, byddwn yn defnyddio canfyddiadau perthnasol yn ymwneud â dysgwyr mewn grwpiau oedran cyffiniol neu sectorau gwahanol i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth.

## Iechyd meddwl a lles

Mae'r tarfu ar arferion rheolaidd, addysg a hamdden yn ogystal â phryderon am incwm ac iechyd y teulu, wedi achosi i lawer o bobl ifanc deimlo'n ofidus, yn rhwystredig ac yn bryderus am y dyfodol. Mae effeithiau parhaus y pandemig, yn enwedig ar y rhai mwyaf difreintiedig, yn tanlinellu pwysigrwydd nodi a diwallu anghenion cymorth dysgwyr a'u teuluoedd. Mae angen inni sicrhau na chaiff anghydraddoldebau eu lledu ymhellach ac y caiff dysgwyr o bob oedran y cyfle i wireddu eu potensial yn llawn, er gwaethaf y pandemig.

### Mae'r dystiolaeth a gyhoeddwyd yn awgrymu y dylid ystyried y mesurau lliniaru canlynol:

- Nodi dysgwyr sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio o ddysgu ac o ddioddef problemau iechyd meddwl a lles emosiynol yn gyflym ac yn ofalus. Monitro eu lles yn rheolaidd a blaenoriaethu cymorth yn ôl angen[14].
- Gwybodaeth glir am sut y gall pob dysgwr gael cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol, gan gynnwys y rheini sy'n astudio gydag is-gontractwyr neu ddarparwyr partner[27].
- Mynediad haws i amrywiaeth eang o wasanaethau iechyd meddwl a lles[14].
- Gall cymorth gan wasanaethau gofal ar ffurf sgrinio a llwybrau atgyfeirio effeithiol at driniaeth glinigol fod o fudd i ddysgwyr mewn colegau chweched dosbarth[27].
- Gall ymyriadau fel cwnsela, gweithgarwch corfforol, a gwella ansawdd cwsg gael effaith gadarnhaol ar les pobl ifanc yn eu harddegau hwyr a myfyrwyr chweched dosbarth[27].
- Dangoswyd bod ymyriadau ymwybyddiaeth ofalgar yn helpu i wella lles amrywiaeth eang o ddysgwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc 4-15 oed a phobl ifanc mewn colegau chweched dosbarth. Ym maes addysg ôl-uwchradd y mae'r dystiolaeth gryfaf o effaith fuddiol ymwybyddiaeth ofalgar[27].
- Datblygu 'fframweithiau adfer' sy'n seiliedig ar strategaethau aml-asiantaeth a rhyngddisgyblaethol cydweithredol lleol. Ystyrir mai'r strategaethau hyn yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth geisio mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl-gymdeithasol cymhleth[28]. Caiff cymorth ei ddarparu mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol pan fydd darparwyr yn gweithio'n agosach gydag asiantaethau arbenigol a phartneriaid allanol a mewnol ac mae trefniadau cymorth amlasiantaeth yn fwyaf effeithiol pan fydd dysgwyr yn cael un pwynt cyswllt[14].
- Cynyddu ymwybyddiaeth staff o iechyd meddwl a lles emosiynol. Yn ôl Estyn, mae hyn yn helpu staff i nodi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi a'u cefnogi, yn ogystal â helpu staff i gynnal eu lles emosiynol eu hunain[14].
- Trefniadau goruchwylio, mentora a dysgu proffesiynol priodol i staff cwnsela o ran rhoi cymorth effeithiol o bell[14].
- Rhagor o hyfforddiant i weithwyr ieuenctid, yn enwedig ar ddigartrefedd, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio cyffuriau, cam-drin domestig, adfer ar ôl trawma, LHDTC, rhywedd a hunaniaeth[18].

ATODIAD
# ADOLYGIAD O LENYDDIAETH

## Addysgu, dysgu a phontio

Achosodd pandemig COVID-19 gryn darfu ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb, a arweiniodd at newidiadau i'r cwricwlwm ac addysgeg wrth i ddysgwyr ac ymarferwyr newid i ddysgu ar-lein. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am effaith dysgu o bell ar fylchau rhwng cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol. Fodd bynnag, bu'n haws i ddysgwyr oedd â mynediad parod i dechnoleg a chysylltedd rhyngrwyd band eang dibynadwy addasu i ffyrdd newydd o weithio[14]. Cyn y pandemig, awgrymodd ymchwil fod cryn heriau'n bodoli o ran cynnydd drwy gyfnod uwchradd uwch ysgolion i ddysgwyr â chyrhaeddiad canolig ac is. Awgryma ymchwil bresennol efallai fod y pandemig wedi gwaethygu rhwystrau mewnol i gynnydd, yn enwedig o ran cyrhaeddiad mewn mathemateg a Saesneg[28].

### Mae'r dystiolaeth a gyhoeddwyd yn awgrymu y dylid ystyried y mesurau lliniaru canlynol:

- Darparu adnoddau a gweithgareddau i feithrin gwydnwch dysgwyr i oresgyn heriau a'u paratoi ar gyfer gwaith[14].
- Cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr o'r cefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwyaf difreintiedig. Gall hyn gael effaith gadarnhaol sylweddol ar eu cynnydd[27].
- Mae tiwtora pwnc benodol ychwanegol gan athrawon hyfforddedig a chymwysedig ar sail un i un neu grwpiau bach yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd plant a phobl ifanc 3-18 oed o ran eu dysgu[27].
- Mae cymorth dysgu wedi'i arwain gan gyfoedion a chynlluniau mentora yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd plant a phobl ifanc 3-18 oed[27].
- Gweithgareddau metawybyddiaeth a hunanreoleiddio er mwyn helpu dysgwyr i asesu eu hanghenion eu hunain a'u cynnydd o ran eu dysgu[27].
- Addysgu ychwanegol yn ystod cyfnodau gwyliau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol/coleg; dangoswyd bod hyn yn helpu i hybu cynnydd ymhlith plant a phobl ifanc 3-18 oed a myfyrwyr sy'n pontio i addysg uwch[27].
- Gwelwyd bod cymorth ariannol a gwybodaeth well yn helpu dysgwyr â photensial uchel ond incwm isel i symud ymlaen i addysg uwch. Gwelwyd hefyd fod ymyriadau ehangach sydd â'r nod o gadw myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn cael effaith fuddiol[27].
- Addasu dysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol mewn ffyrdd sy'n briodol i raglenni a myfyrwyr penodol[30].
- Addysgu am argyfyngau a chlefydau pandemig ac ymchwilio iddynt fel rhan o gwricwlwm addysg uwch a rhaglenni ymchwil prif-ffrwd[30].
- Gwell hyfforddiant, dysgu cydweithredol a mwy o ddysgu cyfunol er mwyn helpu dysgwyr i ddal i fyny[28].
- Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol er mwyn sicrhau bod pob rhaglen yn cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol fel y gellir lleihau amrywioldeb yn y ddarpariaeth[29].
- Rhannu arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol arloesol ac sy'n datblygu yn y sectorau ôl-16 ac ar eu traws, yng Nghymru a thu hwnt[29].
- Cymorth parhaus ar gyfer y sectorau ôl-16 a chanllawiau i alluogi darparwyr i ddatblygu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol o ansawdd uchel[29].
- Dysgu proffesiynol am ddim i ddarparwyr sy'n eu helpu i feithrin arbenigedd mewn dylunio dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol a sgiliau asesu[29 18].
- Mynediad i fanc adnoddau cenedlaethol wedi'i ddatblygu gan gyrff dyfarnu neu ymarferwyr profiadol (mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i athrawon newydd gymhwyso); gan gynnwys cynlluniau asesu a marcio y gellir eu haddasu[18].
- Uwchsgilio gweithwyr ieuenctid â'r sgiliau TG angenrheidiol er mwyn meithrin eu hyder i gyflwyno dysgu cyfunol[18].



ATODIAD
ADOLYGIAD O LENYDDIAETH

## Addysg alwedigaethol

Bu'n fwy heriol i rai cyrsiau a rhaglenni ddefnyddio dulliau dysgu o bell na rhai eraill. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir i ddysgwyr mewn lleoliadau dysgu galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith sy'n dilyn cyrsiau technegol a phrentisiaethau. Mae angen iddynt ymarfer gyda chyfarpar arbenigol ac mewn cyfleusterau arbenigol, yn ogystal â chwblhau asesiadau wedi'u goruchwylio i ddangos cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol[29].

Mae darparwyr dysgu galwedigaethol, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion hefyd wedi wynebu mwy o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, oedi cyn dechrau a chwblhau prentisiaeth, tarfu ar y gallu i ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol ymarferol, a heriau wrth gadarnhau sgiliau dysgwyr[28]. Mae problemau o ran cyfranogi wedi effeithio ar oedolion yn arbennig.

### Mae'r dystiolaeth a gyhoeddwyd yn awgrymu y dylid ystyried y mesurau lliniaru canlynol:

- Mesurau cydgysylltiedig amlasiantaeth (e.e. cyfarwyddyd gyrfaoedd, rhaglenni cymorth personol), a gaiff eu rhoi ar waith yn gynnar a'u cydlynu'n lleol[28].
- Darparu mwy o leoliadau swyddi[28].
- Creu digon o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith gan sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn gallu manteisio arnynt[28].
- Cynlluniau Gwarant i Bobl Ifanc neu Warant Cyfle (mae hyn eisoes yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yng Nghymru ac eisoes yn bolisi yn yr Alban)[28].
- Cynlluniau tymor hwy yn seiliedig ar 'adferiad gwyrdd' sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc[28].
- Galluogi partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a dysgwyr i fanteisio ar lwyfan digidol canolog cenedlaethol er mwyn cynnig dysgu o bell a dysgu cyfunol yn haws[29].

Awgryma tystiolaeth o'r llenyddiaeth fod y tarfu ar ddysgu wedi cynyddu'r bylchau economaidd-gymdeithasol ac wedi lledu anghydraddoldebau. Dangoswyd hyn gan gynnydd cychwynnol yn y nifer o unigolion oedd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn y DU ac Iwerddon ac effaith y pandemig ar ddiweithdra a diffyg gwaith ymhlith pobl ifanc o leiafrifoedd hiliol[28]. Un strategaeth liniaru a awgrymir yw cysylltu ymyriadau ar lefelau gwahanol a'u dwyn ynghyd mewn pecynnau cymorth personol.

## Mynediad a chyfranogiad mewn Addysg Uwch

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar addysg uwch yn y DU, yn yr un modd â chyfnodau addysg eraill, a chafodd addysgu a dysgu wyneb yn wyneb eu hatal am gyfnodau sylweddol yn ystod blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21. Bydd y pandemig wedi effeithio ar les ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, llawer o staff, myfyrwyr, ymgeiswyr a graddedigion diweddar. Gall yr angen posibl i hunanynysu, ailynysu dro ar ôl tro, neu dreulio cyfnod mewn cwarantin waethygu amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl, yn ogystal â theimladau o unigrwydd a diffyg ymdeimlad o berthyn[31]. Gall mwy o weithio gartref a mwy o ddefnydd o ddysgu ar-lein gyflwyno heriau ychwanegol o ran diogelwch, er enghraifft micro-ymosodedd ac aflonyddu.

Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r bwlch cyrhaeddiad mewn ysgolion sy'n gysylltiedig â lefelau o dlodi, ac mae hyn, ynghyd â chost cymharol uchel addysg uwch i deuluoedd incwm canolig ac isel, yn rhwystr sylweddol i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch[30].

Mae'n rhy gynnar o hyd i fesur effaith lawn y pandemig ar brentisiaethau, gan gynnwys prentisiaethau lefel gradd. Oherwydd natur eu rolau gwaith, mae'r rhan fwyaf o brentisiaid gradd neu raddedig wedi gallu parhau â'u dysgu drwy gydol y pandemig.

# ATODIAD
# ADOLYGIAD O LENYDDIAETH

Mae rhai wedi gallu ymgymryd â'u swyddi gartref, ac mae eraill a gafodd eu rhoi ar ffyrlo wedi gallu parhau ag elfennau i ffwrdd o'r gwaith eu hastudiaethau wrth iddynt aros i ailgychwyn eu gwaith. Mae cynnal y cydbwysedd rhwng elfennau astudio ac elfennau yn y gweithle yn her tymor hwy. Er y gellir parhau i astudio drwy ddulliau dysgu o bell/ar-lein fel arfer, mae elfennau seiliedig ar waith yn dibynnu ar amgylchiadau cyflogaeth a ph'un a all prentisiaid gael y profiad gofynnol. Po hiraf yw'r tarfu ar y profiad seiliedig ar waith, y mwyaf y gall profiad prentisiaeth wyro oddi wrth ei ffurf fwriadedig. Fel yn achos cyrsiau addysg uwch eraill, mae darparwyr wedi gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau dysgu o bell/ar-lein, a thechnolegau digidol newydd. Gall yr heriau sy'n gysylltiedig â'r newid hwn gael eu gwaethygu gan y trefniadau dysgu sydd ar waith, er enghraifft a yw prentisiaid fel arfer ar y campws am gyfnodau bloc neu a yw'r trefniadau'n debycach i ddiwrnodau astudio i ffwrdd o'r gwaith[37].

Mae pob prifysgol yn cyflwyno Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales. Nid yw lleoliadau gwaith a ddarperir drwy'r rhaglen hon wedi bod ar gael cymaint yn ystod y pandemig. Mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr blaenoriaeth sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan yng ngweithgareddau GO Wales fel arfer yn ymddieithrio o'r rhaglen neu o addysg uwch yn gyfan gwbl o ganlyniad i ddysgu o bell a/neu ddysgu cyfunol. Dylid datblygu dulliau amgen o feithrin sgiliau cyflogadwyedd, wedi'u teilwra at anghenion unigol[31].

Yn gyffredinol, gall mwy o ddefnydd o ddysgu ar-lein ym maes addysg uwch effeithio ar ymdeimlad myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd o berthyn, a gwyddys fod hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at gyfraddau cadw, lles a llwyddiant. Canfu arolwg a gynhaliwyd ym mis Medi 2021 fod 64% o fyfyrwyr yn teimlo y byddai dechrau'r flwyddyn academaidd newydd wyneb yn wyneb yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles a bod 69% o fyfyrwyr yn cytuno bod teimlo'n rhan o gymuned prifysgol yn bwysig[38].

Mae'r newid i fathau gwahanol o addysgu a dysgu wedi rhoi mwy o bwysau ar staff. Gall pwysau o'r fath gael mwy o effaith ar fenywod ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa, y mae llawer ohonynt yn wynebu mwy o gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 fel rhieni neu ofalwyr plant ifanc[31].

**Mae'r dystiolaeth a gyhoeddwyd yn awgrymu y dylid ystyried y mesurau lliniaru canlynol:**

- Mentora a chymorth i wneud cais am le mewn prifysgol[30].
- Cymhellion ariannol, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â gwybodaeth, cymhelliant a chymorth[30].
- Mwy o gymorth cymunedol lleol ar gyfer sefydliadau addysg uwch[30].
- Hyrwyddo ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru i ddiogelu pobl sy'n dioddef trais neu'n cael eu cam-drin a sicrhau bod cymorth priodol ar gael i ddioddefwyr[31].
- Trefniadau cydweithio rhwng darparwyr a chyflogwyr er mwyn galluogi prentisiaid i barhau â'u hastudiaethau lle y bo'n bosibl ac ehangu mynediad i brentisiaethau[31].
- Datblygu rhaglenni dysgu cyfunol sy'n cefnogi pob dysgwr ac yn ystyried anghenion dysgwyr anabl, y rheini y mae tlodi digidol yn effeithio arnynt a'r rheini â chyfrifoldebau gofalu[31].
- Monitro cyfraddau cadw myfyrwyr a defnyddio'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad i ddangos sut y caiff myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan gynnwys myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, eu cadw a'u galluogi i lwyddo[31].
- Gwaith traws-sefydliadol rhwng timau GO Wales a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg uwch er mwyn cadw myfyrwyr a sicrhau y caiff pob myfyriwr gyfle cyfartal[31].



# ATODIAD
# ADOLYGIAD O LENYDDIAETH

## Y gweithlu addysg

Comisiynwyd y Sefydliad Ymchwil Addysg gan yr Adran Addysg i gynnal adolygiad cyflym o dystiolaeth ryngwladol o effaith COVID-19 ar weithwyr addysg, gweithwyr gofal plant a gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal â rhannau perthnasol eraill o'r gweithlu gofal cymdeithasol[32]. Nod yr adolygiad oedd deall yr effeithiau byrdymor a hirdymor ar y grwpiau uchod a sut y gellid eu lliniaru er mwyn lleihau effaith negyddol y pandemig. Mae'r dystiolaeth ymchwil yn tynnu sylw at y niwed i iechyd meddwl a lles a welwyd ymhlith gweithwyr addysg; arweiniodd lefelau uchel o straen o ganlyniad i'r pandemig at forâl isel a throsiant staff uchel.

Canfu adroddiad gan elusen 'Education Support' a gyhoeddwyd yn ystod haf 2020 fod 52% o athrawon ar draws y DU yn teimlo bod eu hiechyd meddwl a'u lles wedi dirywio o gymharu â 2019[39]. Priodolwyd y dirywiad mewn iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith athrawon, yn rhannol i ddiffyg canllawiau clir a phryderon am eu hiechyd corfforol. Awgryma adroddiadau fod iechyd meddwl athrawon wedi gwaethygu wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, yn enwedig wrth i athrawon ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb[40 41 42]. O ran iechyd corfforol, prin oedd y dystiolaeth i awgrymu bod gweithwyr addysg yn wynebu mwy o risg o ddal y coronafeirws o gymharu â grwpiau eraill o weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o ganfyddiad ymhlith gweithwyr addysg eu bod yn wynebu risg sylweddol[32]. Awgrymodd canfyddiadau adolygiad o ymchwil ryngwladol fod diffyg canllawiau clir a phrinder PPE wedi dwysáu'r canfyddiad hwn[32].

**Mae'r dystiolaeth a gyhoeddwyd yn awgrymu y dylid ystyried y mesurau lliniaru canlynol:**

- Gwella trefniadau cyfathrebu o fewn sefydliadau.
- Gwella gweithrediad y gweithle.
- Cyfyngu oriau gwaith i lefelau hydrin.
- Cyfyngu gwaith papur a thasgau gweinyddol eraill.
- Rhoi hyfforddiant ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd anodd.

Defnyddiwyd llai o strategaethau ymdopi unigol megis ymwybyddiaeth ofalgar, cysgu a bwyta'n dda a chydbwyso gofynion personol a gwaith yn ystod y pandemig gan fod gan weithwyr addysgol lai o amser. At hynny, mae tystiolaeth i awgrymu bod mynd i'r afael ag achos sylfaenol problemau iechyd meddwl yn fwy effeithiol na defnyddio strategaethau hunanofal i ymdopi a'u heffeithiau. Roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos y gallai gweithgarwch corfforol wella iechyd meddwl, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gweithgarwch corfforol wedi lleihau yn ystod y pandemig[32].



# CYFEIRIADAU

[1]LLYW.CYMRU. (2021). Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr. [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-html. [Cyrchwyd 21 Hydref 2021].
[2]LLYW.CYMRU. (2021). Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-html. [Cyrchwyd 21 Hydref 2021].
[3]LLYW.CYMRU. (2017). Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY). [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil. [Cyrchwyd 21 Hydref 2021].
[4]LLYW.CYMRU. (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/. [Cyrchwyd 21 Hydref 2021].
[5]LLYW.CYMRU. (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf. [Cyrchwyd 21 Hydref 2021].
[6]LLYW.CYMRU. (2020). Cynllun cadernid COVID-19 ar gyfer y sector ôl-16. [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/cynllun-cadernid-ar-gyfer-y-sector-ol-16-coronafeirws. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[7]LLYW.CYMRU. (2020). Llinell amser coronafeirws: Ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU [ar-lein] Ar gael ar: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/llinell-amser-coronafeirws-ymateb-llywodraeth-cymru-a-llywodraeth-y-du/. [Cyrchwyd 21 Hydref 2021].
[8]Estyn. (2021). Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2020-2021. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2020-2021.
[9]Hagell, A. (2021). Summarising what we know so far about the impact of Covid-19 on young people In brief. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.youngpeopleshealth.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Impact-of-Covid-19-on-young-people-briefing.pdf.
[10]Brazeau, N., Verity, R., Jenks, S., Fu, H., Whittaker, C., Winskill, P., et al (2020). Report 34: COVID-19 Infection Fatality Ratio: Estimates from Seroprevalence. Coleg Imperial Llundain. Ar gael ar: https://spiral.imperial.ac.uk/handle/10044/1/83545.
[11]Allwood, L. a Bell, A. (2020) Covid-19: understanding inequalities in mental health during the pandemic. Ar gael ar: https://www.centreformentalhealth.org.uk/sites/default/files/2020-07/CentreforMentalHealth_CovidInequalities_0.pdf. [Cyrchwyd: 16 Tachwedd 2021].
[12]Young Minds. (2021). Coronavirus: Impact on young people with mental health needs - Survey 4: Chwefror 2021. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.youngminds.org.uk/media/esifqn3z/youngminds-coronavirus-report-jan-2021.pdf.
[13]Comisiynydd Plant Cymru. (2020). Coronavirus and Me: Survey Responses from young people aged 15-18. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws-ein-gwaith/coronafeirws-a-fi-canlyniadau-ein-holiadur-ionawr-2021/. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[14]Estyn. (2021). Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymorth-ar-gyfer-iechyd-meddwl-lles-emosiynol-dysgwyr. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[15]LLYW.CYMRU. (2021). Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19. [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19-html. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2021].
[16]Comisiynydd Plant Cymru. (2020). Coronafeirws a Fi: Deall sut brofiad mae plant a phobl ifanc anabl wedi'i gael yn ystod y pandemig yng Nghymru. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/10/BriefingReport_disability_FINAL_Welsh.pdf. [Cyrchwyd: 30 Tachwedd 2021].
[17]Comisiynydd Plant Cymru. (2020). Coronafeirws a Fi: Profiadau plant o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Briefing_Report_W_2020_FINAL.pdf. [Cyrchwyd: 30 Tachwedd 2021].



# CYFEIRIADAU

[18]Cyngor y Gweithlu Addysg. (2021). Adroddiad ar Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg. (2021). [ar-lein] Ar gael ar: https://ewc.wales/site/index.php/cy/documents-cym/research-and-statistics-1/education-workforce-survey-2021-cym/3062-adroddiad-ar-arolwg-cenedlaethol-o-r-gweithlu-addysg-2021/file.html. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[19]Estyn. (2021). Partneriaethau ôl-16 - Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/partneriaethau-ol-16-cynllunio-darpariaeth-ar-y-cyd-rhwng-ysgolion-rhwng.
[20]HWB.LLYW.CYMRU. (2021). Storfa – Hwb. [ar-lein] Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/repository/discovery/resource/eded2dba-940c-4a67-bd70-02a3df28282b/cy?catalogs=dcbfcea3-865c-4acf-b16e-d0a71faa6cd5&sort=recent&strict=1. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[21]HWB.LLYW.CYMRU. (2021). Datblygiad Proffesiynol Parhaus Ôl-16 – Hwb. [ar-lein] Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/dysgu-cyfunol/dysgu-a-sgiliau-ol-16/datblygiad-proffesiynol-parhaus-ol-16/. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[22]CCAUC. (2020). AU mewn Byd sy'n Newid: Addasu mewn Amser Argyfwng. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2020/10/Higher-Ed-Crisis-Publication-CYM.pdf. [Cyrchwyd 28 Tachwedd 2021].
[23]Jisc. (2020). Dysgu cyfunol: synthesis o newid. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.jisc.ac.uk/reports/dysgu-cyfunol-synthesis-o-newid. [Cyrchwyd 28 Tachwedd 2021].
[24]Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. (2021). Adolygiad o Ddysgu Digidol (Cymru). [ar-lein] Ar gael ar: https://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-o-ddysgu-digidol-cymru. [Cyrchwyd 28 Tachwedd 2021].
[25]LLYW.CYMRU. (2021). Datganiad i'r Wasg: £40 miliwn ychwanegol i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol. [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/40-miliwn-ychwanegol-i-gefnogi-myfyrwyr-syn-wynebu-caledi-ariannol. [Cyrchwyd 22 Tachwedd 2021].
[26]LLYW.CYMRU. (2021). Llywodraeth Cymru'n ymestyn y cynllun cymhellion i fusnesau ar gyfer recriwtio prentisiaid. [ar-lein] Ar gael ar: https://llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-ymestyn-y-cynllun-cymhellion-i-fusnesau-ar-gyfer-recriwtio-prentisiaid-gan. [Cyrchwyd 9 Tachwedd 2021].
[27]Edwards, D., Carrier, J., Csontos, J., Gillen, E., et al. (2021). A rapid review of strategies to support learning and wellbeing among 16-19 year old learners who have experienced significant disruption in their education as a result of the COVID-19 pandemic. [ar-lein] Ar gael ar: http://www.primecentre.wales/resources/RR/Clean/RR00016_Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid_review_Post-16_education_September_2021.pdf. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[28]Spours, K., Grainger, P., Vigurs, C., France, R. (2021). Mitigating impacts of the COVID-19 pandemic on the further education sector. Canolfan EPPI Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Coleg Prifysgol Llundain IPPO. Ar gael ar: https://eppi.ioe.ac.uk/cms/Portals/0/Lot%204%20-%20FE%20-%20090921_LO.pdf?ver=2021-09-09-114634-593.
[29]Estyn. (2021). Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol.
[30]Unteralter, E., Howell, C., Vigurs, C., France, R. a Candy, B. (2021). Mitigating impacts of the COVID-19 pandemic on higher education. Canolfan EPPI Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Coleg Prifysgol Llundain IPPO. Ar gael ar: https://eppi.ioe.ac.uk/cms/Portals/0/Lot%205%20-%20HEI%20-%20090921_LO.pdf?ver=2021-09-09-115003-887.
[31]CCAUC. (2020). W20/24HE: Covid-19 impact on higher education providers: information on equality, diversity and inclusion. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.hefcw.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyrau/w20-24he-covid-19-impact-on-higher-education-providers-information-on-equality-diversity-and-inclusion/. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].
[32]Atfield, G., Baldauf, B. a Kispeter, E. (2021). Mitigating the impacts of COVID-19 Rapid evidence review -Education, childcare and social work and related social care workforce [ar-lein] Ar gael ar: https://warwick.ac.uk/fac/soc/ier/research/mitigatingimpactsofcovid19/mitigating_the_impact_of_covid_on_the_workforce_ier.pdf. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].

# CYFEIRIADAU

[33]IPPO Rapid Evidence Review: Moss, G., Bradbury, A., Harmey, S., Mansfield, R. Candy, B., France, R. a Vigurs, C. (2021). Mitigating impacts of the COVID-19 pandemic on primary and lower secondary children during school closures. Canolfan EPPI Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Coleg Prifysgol Llundain IPPO. Ar gael ar: https://eppi.ioe.ac.uk/cms/LinkClick.aspx?fileticket=Yxnj8ldsTIU%3d&tabid=3842&portalid=0.

[34]Estyn. (2021). Sut defnyddiodd ysgolion a cholegau'r grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RAChS) neu'r grant dal i fyny ar gyfer dysgwyr ôl-16 [ar-lein] Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/sut-defnyddiodd-ysgolion-cholegaur-grant-recriwtio-adfer-chodi-safonau-rachs.

[35]HWB.LLYW.CYMRU. (2021). Adnoddau adolygu Safon Uwch – Hwb. [ar-lein] Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/dysgu-cyfunol/adnoddau/adnoddau-adolygu-safon-uwch. [Cyrchwyd 9 Tachwedd 2021].

[36]OpenLearn. (2021). Barod ar gyfer Prifysgol. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.open.edu/openlearn/education-development/barod-ar-gyfer-prifysgol/?filter=date/grid/all/none/all/all/all/. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].

[37]Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. (2020). The impact of COVID-19 on Higher Education in Apprenticeships: An Overview of the Challenges facing Higher Education Providers. Cylchlythyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Ar gael ar: https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/higher-education-in-apprenticeships-covid-19.pdf?sfvrsn=e46cc81_4.

[38]Student Minds. (2021). Student Mental Health - Life in a Pandemic. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.studentminds.org.uk/student-mental-health-in-a-pandemic.html [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021]. [Cyrchwyd 17 Tachwedd 2021].

[39]Covid-19 and the classroom: Working in education during the coronavirus pandemic. (2020). [ar-lein] Ar gael ar: https://www.educationsupport.org.uk/media/rn4ek0hy/covid-19_and_the_classroom.pdf

[40]Teacher Wellbeing Index 2020. (2020). [ar-lein] Ar gael ar: https://www.educationsupport.org.uk/media/yfrhfjca/teacher_wellbeing_index_2020.pdf.

[41]Worth, J. a Faulkner-Ellis, H. (2021). Teacher Labour Market in England. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.nfer.ac.uk/media/4382/teacher_labour_market_in_england_annual_report_2021.pdf.

[42]Allen, R., Jerrim, J. a Sims, S. (2020). How did the early stages of the COVID-19 pandemic affect teacher wellbeing? Y Ganolfan ar gyfer Polisi Addysg a Chydraddoli Cyfleoedd (CEPEO). [ar-lein] Ar gael ar: https://repec-cepeo.ucl.ac.uk/cepeow/cepeowp20-15.pdf.

